CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener yr 16eg o Fai 2025 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Ken Griffiths, Sion Evans, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry. Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Aled Rees a Meirion Roberts.

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

   Derbyniwyd adrdoddiad blynyddol gan y Cadeirydd am weithgarwch a'r hyn a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ystod 2024-25. Roedd y gwaith wedi parhau o ddefnyddio arian trethdalwyr yn gyfrifol ac effeithiol. Roedd y fynwent wedi ei chadw yn daclus, a gwnaethpwyd gwaith gwirfoddol gan y Cynghorwyr yn gosod ac adnewyddu ffens yno. Hefyd llawer o drafod wedi ei wneud ar faterion a dyfodol yr hen fynwent. Sicrhawyd bod y diffibrillators yn cael eu hadnewyddu/uwchraddio yn Pennal a Cwrt a'u bod yn gweithio yn iawn. Cyfranwyd i achosion lleol, gan gynnwys y Ganolfan. Hefyd ymatebwyd i faterion cynllunio ddaw o'r Parc Cenedlaethol. Ymatebwyd ar faterion Priffyrdd, Cefnffyrdd a llwybrau yn gyffredinol, a sicrhawyd fod unrhyw ymholiadau o'r cyhoedd yn cael eu hateb yn gyflym ac effeithiol. Hefyd gofalwyd am y toiledau yn y pentref. Trefnwyd cael mudiad Age Cymru i wneud sesiwn galw mewn yn y Ganolfan er mwyn rhoi gwybodaeth ar wahanol faterion.
   Gofalwyd bod hyfforddiant ar gael i Gynghorwyr os oeddynt yn dymuno, a sefydlwyd cyfeiriad e-bost o'r newydd i'r Cyngor, sef Cyngorpennal@outlook.com;

   Diolchwyd i'r holl Gynghorwyr am eu gwaith a'u cydweithrediad yn ystod y flwyddyn.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 21ain o Fawrth 2025 ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng William Rees.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** roedd angen atgoffa Cyngor Gwynedd ynglyn a'r gwteri wedi blocio ar y ffordd o Cwrt i gyfeiriad Cwmffernol, ac o Tower road i fynny am Gyllellog. Roedd gwaith gyda llwybrau ar y gweill, a byddai rhaid trafod eto y tro nesaf. Nodwyd fod angen atgoffa Sion Wilkes eto ynglyn a dwr o flaen Ty Alys. Adroddwyd fod yna barcio eto dros nos ger rhif 1, Rhys Terrace, ac roedd angen ystyried rhoi bollards yno.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – trefnwyd y byddai Cynghorwyr a gwirfodolwyr yn dod yno i wneud gwaith ar ddydd Sadwrn 7fed o Fehefin. Addawodd Cyng Ken Griffiths son wrth Hugh Ramsbottom i roi gwybodaeth am hyn.
   c) **Difibrillators** – roeddynt bellach wedi eu cofrestru yn enw Cyng Aled Rees, ac roedd Aled wedi prynu battery i'r Diffib yn Cwrt.
   d) **Age Cymru** – adroddwyd am y digwyddiad 'galw mewn' a gynhaliwyd yn y Ganolfan bore Mercher 23ain Ebrill. Roedd hyn wedi bod yn llwyddiant, a gwelwyd y dylid trefnu eto os oedd galw.

e) **Menter y Glan** – CCTV – nodwyd byddai rhaid trafod y tro nesaf pan fyddai Cyng Meirion Roberts yn bresennol.

5. **Ethol Swyddogion 2025-26.**

a) **Cadeirydd ac Is- Gadeirydd** - ar gynnig Cyng William Rees a'I eilio gan Cyng Ken Griffiths, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng Rhys Parry yn Gadeirydd am 2025-26, a Cyng James Brunton yn Is-Gadeirydd.

**6. Telerau a Chostau y Clerc 2025-26**

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorwyr gael trafodaeth eu hunain yn y cyswllt yma, a gadawodd y Clerc yr ystafell..

Cadarnhawyd gynyddu y gydnabyddiaeth 7.5% ar gyfer 2025-26. Byddai rhaid wedyn rhoi cynnydd chwyddiant yn y gyllideb yn flynyddol. Diolchwyd yn fawr iawn i'r Clerc am ei waith.

7. **Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Pennal ar gyfer 2025/26.**

Cadarnhawyd y dyddiadau canlynol; 11/07/25, 5/09/25, 7/11/25, 12/12/25, 16/01/26, 6/03/26.

Byddai'r Clerc yn cadarnhau ar wefan y Cyngor a Chanolfan Pennal.

8. **Dosbarthwyd ffurflenni cofrestr buddiannau i'w cwbwlhau gan Gynghorwyr, a derbyniwyd y cyfan i law**

Ar gynnig Cyng William Rees a'i eilio gan Cyng Ken Grifffiths, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y canlynol (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw i'r Cyngorwyr);

**Asesiad risg y mynwentydd a materion cyffredinol ac ariannol y Cyngor**

**Cofrestr asedau** – cadarnhawyd y ffigwr o £54,000

Hefyd, ar gynnig Cyng Sion Evans a'i eilio gan Cyng James Brunton, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y canlynol (a oedd ar wefan y Cyngor);

**Cod ymddygiad** – (roedd copiau caled ar gael er gwybodaeth pawb yn y cyfarfod)

**Rheoliadau ariannol a rheoliadau sefydlog**

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth**.

9. **Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol.**

Cadarnhawyd y canlynol;

Y Ganolfan – Cyng Sion Evans

Menter y Glan – Cyng Meirion Roberts, James Brunton, a Rhys Parry

Partneriaeth Pennal – Cyng James Brunton a Rhys Parry
Llywodraethwyr yr Ysgol – Cyng Rhys Parry

10**. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

11.**Materion Cyllid**

a) **Cyflwynwyd cyfrifon 2024-25** yn swyddogol I'r Cynghorwyr. Roeddent wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd heb unrhyw ymholiadau. Cadarnhwyd fod y cyfan yn gyflawn I'w cyflwyno I'r archwilydd allanol maes o law, ac roedd yr hysbyseb gyhoeddus wedi ei baratoi. Cadarnhwyd hefyd fod y cais am ad-daliad y VAT wedi ei wneud.

b) **Nodwyd gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant Zurich** , am gyfanswm o £422.88 a chadarnhawyd manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2025-26. (Roedd y cyfan wedi ei ddanfon allan ymlaenllaw I'r Cynghorwyr)

Ar gynnig Cyng William Rees a'i eilio gan Cyng Sion Evans, cytunwyd i'w dalu.

c) Nodwyd derbyn **rhan gyntaf y praesept** am 2025-26, sef £9000. Nodwyd balansau y cyfrifon, (16.05.25), sef Cyfri Cyfredol £17,962.93, Cyfri Cadw £2680.08. Cyfeirwyd hefyd at gyllideb 2025-26 a oedd wrth law, ac atgoffwyd pawb fod rhaid cadw y gyllideb mewn cof drwy gydol y flwyddyn

d) Cytunwyd i dalu yr anfonebau i law;

- Yswiriant y Cyngor 2025-26 - £422.28
- Cost batri y Di -fib - £336.

e) Ceisiadau am arian ;

- Ambiwlans Awyr Cymru – cytunwyd i gyfrannu £100.

**12. Gohebiaeth**

a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd i law.

b) Nodwyd gynnwys cyfarfod zoom gyda Fforwm Cymunedau Parc Cenedlaethol Eryri, a'r materion dan drafodaeth.

c) Roedd llythyr o ddiolch gan Sian Gwenllian AS am gefnogi ymgyrch dros sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

d) Roedd gwybodaeth i law am gronfeydd grantiau Mantell Gwynedd a Chronfa cefnogi adfywio cymunedau Cyngor Gwynedd.

e) Roedd llythyr i law am gyfarfod cyhoeddus gan Grwp Amddiffyn Gwasanethau Bronglais ar Nos Wener 20fed Mehefin am 7pm yn y Neuadd Fawr Aberystwyth. Roedd hyn oherwydd newidiadau i'r Uned Stroc, sef iselhau y gwasaneth, a oedd o bryder mawr. Gofynnwyd i'r Clerc ddanfon llythyr cryf am hyn, a hefyd llongyfarch yr Uned Gancr newydd oedd wedi ei sefydlu.

13.**Unrhyw fater arall.**

- Nid oedd yna oleuadau stryd ar Tower Road, ac roedd angen codi hyn gyda Chyngor Gwynedd.
- Cytunwyd i dalu costau bwyd cyfarfod y gwirfoddolwyr fyddai yn gweithio yn y fynwent ar y 7fed o Fehefin hyd at uchafswm o £400.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 11eg o Orffennaf yn y Ganolfan am 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.10pm.